# Trawsnewid Bywydau




trawsnewid bywydau

Prifysgolion Cymru
Un Sgwâr Canolog
Caerdydd, CF10 1FS

029 2044 8020
info@uniswales.ac.uk
uniswales.ac.uk

# Cynnwys

Stori Tina
TUD. 6

Stori Ben
TUD. 7

Stori Ryan
TUD. 8

Stori Sharon
TUD. 9

Stori Rhys
TUD. 10

Stori Keshlan
TUD. 11

Stori Charlotte
TUD. 12

Stori Germaine
TUD. 13

Stori Michael
TUD. 14

Stori Hayley
TUD. 15

Stori Caitlin
TUD. 16

Stori Carrie
TUD. 17

Stori Tim
TUD. 18

Stori Antigone
TUD. 19

Stori Rebecca
TUD. 20

Stori Elisha
TUD. 21

Stori Paige
TUD. 22

Stori Cathy
TUD. 23

Mae'r cyhoeddiad hwn, sy'n ffurfio rhan o'n hymgyrch Trawsnewid Bywydau ehangach, yn amlygu profiadau a straeon detholiad bach yn unig o filoedd lawer o raddedigion prifysgol. Gydag astudiaethau achos o leisiau amrywiol ledled Cymru a thu hwnt, mae'n dangos yr effaith ddofn y gall addysg prifysgol ei chael, ar unigolion ac ar gymunedau.



Rydym yn cyhoeddi'r ddogfen hon ar adeg dyngedfennol ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Mae heriau cyfranogiad sylweddol o fewn addysg ôl-16 yn ei chyfanrwydd, ac mae Cymru bellach ar ei hôl hi o gymharu â gweddill y DU o ran cyfran ein pobl ifanc 18 oed sy'n dewis gwneud cais i brifysgol. Mae'r sefyllfa ddigalon hon yn cyflwyno'r posibilrwydd gwirioneddol y bydd carfannau o bobl ifanc Cymru yn y dyfodol yn llai cymwys na'r rhai a aeth o'u blaenau.

Mae'n hollbwysig ein bod yn gweithredu ar fyrder i wrthdroi'r duedd hon, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu bodloni'r anghenion sgiliau yn y dyfodol a fydd yn sail i'n twf economaidd parhaus fel gwlad. Mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i nodi'r ffactorau sy'n effeithio ar gyfraddau cyfranogiad ac i wneud yr achos dros effaith drawsnewidiol addysg prifysgol.

Mae ymchwil yn dangos yn gyson bod mynd i brifysgol yn talu ar ei ganfed, a bod gradd o brifysgol yn y DU yn parhau i roi hwb sylweddol i gyflog, lefelau cyflogaeth a rhagolygon gyrfa graddedigion trwy gydol eu hoes.

Ond y tu ôl i bob ystadegyn mae unigolyn â thaith unigryw; person y mae ei fywyd wedi newid er gwell o ganlyniad i addysg uwch.

Mae'r profiadau a rennir yn y cyhoeddiad hwn yn dangos yn glir sut y gall mynychu prifysgol agor drysau i yrfaoedd newydd a grymuso unigolion i wneud cyfraniadau ystyrlon i gymdeithas ac i brofi twf personol dwys. Gyda'i gilydd, maent yn arddangos yr holl wahanol ffyrdd y gall addysg uwch fod yn gatalydd, ar gyfer cynnydd unigol a chymdeithasol.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen y casgliad hwn a hoffwn ddiolch i bob cyfrannwr a fu mor garedig â rhoi o'u hamser i'r prosiect pwysig hwn. Wrth rannu eich profiadau eich hun, rydych wedi ein helpu i ailddatgan gwir werth addysg uwch er budd y cenedlaethau a fydd yn eich dilyn.

**Yr Athro Paul Boyle**
**Cadeirydd, Prifysgolion Cymru**

# Stori Tina



## Er gwaethaf diagnosis am gyflwr fyddai'n cyfyngu ar ei bywyd yn 16 oed, anwybyddodd Tina Evans ragolygon y meddygon o'r hyn oedd gan y dyfodol i'w gynnig i glaf Friedreich's Ataxia a dewisodd fyw bob dydd fel y daw.

Ar ôl graddio gyda BA mewn Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu o Brifysgol Aberystwyth, dechreuodd Tina ei gyrfa gyda BBC Cymru, lle bu'n gweithio fel ymchwilydd yn yr Adran Addysg ac yna Radio Cymru.

Nid yw Tina yn ddieithr i'r sgrin chwaith, ar ôl bod yn ymwneud â rhaglenni fel Bwrdd i Dri, Taith Fawr y Dyn Bach a Dathlu. Ac, yn 2022, fe'i gwahoddwyd i fod yn rhan o dîm gohebu BBC Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad.

Mae Tina'n herio rhwystrau i wneud yn siŵr bod ganddi hi ac eraill fynediad i wneud y pethau maen nhw'n eu caru mewn bywyd. Mae hi wedi cymryd rhan mewn pob math o heriau corfforol, megis arfordira, a dyfarnwyd Cymrodoriaeth er Anrhydedd iddi gan Brifysgol Aberystwyth ym mis Gorffennaf 2023.

**"Y brifysgol oedd y sbardun i fy annibyniaeth, hunan-gred, twf a gyrfa"**

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Stori Ben



## Mae Ben Thompson yn frwd dros adrodd straeon byrion a chyflwyno ffilmiau byrion i gynulleidfaoedd newydd.

Ar ôl dilyn cwrs Astudiaethau Ffilm a Theledu ym Mhrifysgol Aberystwyth, symudodd Ben i'r Unol Daleithiau gan ymgartrefu yn Efrog Newydd. Yno ymunodd â'r tîm yng Ngŵyl Ffilm adnabyddus Tribeca - gan godi trwy'r rhengoedd i fod yn Is-lywydd Rhaglennu Ffilmiau Byrion Tribeca.

Pan nad yw'n trefnu rhaglenni ffilmiau byrion, mae'n eu cynhyrchu nhw, gan gynnwys Yellow Balloon sydd wedi ennill sawl gwobr, a ddewiswyd fel rhan o gasgliad parhaol yr Amgueddfa Celf Fodern. Mae Ben yn frwd dros roi llwyfan i leisiau Cymry, gan ennill y categori ar gyfer ffilm ddogfen fer yn Tribeca yn 2022 gyda ffilm a saethwyd yng Ngheredigion.

Mae Ben hefyd yn meithrin y genhedlaeth nesaf o wneuthurwyr ffilm, gan rannu ei arbenigedd gyda myfyrwyr Aberystwyth ar sawl achlysur; mae hefyd yn cynorthwyo Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu Aberystwyth i anfon grwpiau o fyfyrwyr allan i Efrog Newydd i brofi gŵyl ffilm Tribeca.

***"Dydw i ddim yn meddwl eich bod chi'n sylweddoli faint mae'r profiad o fynd i'r brifysgol yn siapio pwy ydych chi a phwy fyddwch chi yn y dyfodol. Mae'n gyfnod mor bwysig yn eich bywyd"***

# Stori Ryan



## Ganed Ryan Eddowes gyda Bilateral Congenital Talipes Equinovarus, a elwir hefyd yn "draed clwb". Wrth dyfu i fyny, datblygodd angerdd am fyd natur ond, oherwydd ei gyflwr, fe'i cynghorwyd na fyddai bywyd yn gweithio gydag anifeiliaid yn bosibl.

Er gwaethaf hyn, cymhwysodd Ryan fel gofalwr anifeiliaid ac aeth ymlaen i astudio Sŵoleg ym Mhrifysgol Bangor, a roddodd gyfle iddo arallgyfeirio i sawl maes gan gynnwys gofal anifeiliaid, cadwraeth bywyd gwyllt, cyfryngau bywyd gwyllt ac eiriolaeth dros newid hinsawdd.

Galluogodd astudio yn y brifysgol Ryan i ddilyn ei angerdd am fyd natur, gan deithio'n rhyngwladol i ymchwilio a ffilmio bywyd gwyllt. Ers graddio, mae wedi gweithio fel dyn camera/cyflwynydd bywyd gwyllt, darlithydd mewn rheolaeth anifeiliaid, tywysydd teithiau Saffari uwchaddol, a cheidwad mewn sw. Mae'n aml yn gwneud cyflwyniadau i ysgolion, colegau a phrifysgolion ar ei fywyd ym maes cadwraeth/cyfryngau bywyd gwyllt ac mae'n llysgennad ac eiriolwr cryf dros fynd i'r brifysgol.

***"I mi, mae profiad prifysgol yn llwybr o hunan-ddarganfod, meithrin annibyniaeth, mwynhau eiliadau bythgofiadwy a chreu straeon gydol oes i'w hadrodd"***

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Stori Sharon




**Ar ôl gadael yr ysgol yn 15 oed heb unrhyw gymwysterau, bu Sharon Manning yn gweithio ym maes addurno ffenestri siop ac mewn cartrefi gofal, cyn gweithio fel nyrs gynorthwyol yn ysbyty Glan Clwyd am saith mlynedd.**

Yn 2000, gwnaeth Sharon gais i ymgymryd â hyfforddiant nyrsio ym Mhrifysgol Bangor. Ar ôl graddio, dilynodd Sharon ei hangerdd am oncoleg, gan ddod yn Nyrs Arbenigol Oncoleg Gynaecolegol Macmillan yn y pen draw.

Yn y rôl hon y bu Sharon yn arloesi gyda gwasanaeth newydd i gleifion canser yr ofari (y 'Rocket Drain'), sydd wedi'i ddisgrifio fel gwasanaeth sy'n newid bywydau cleifion. Mae'r driniaeth hon bellach ar gael ar draws y tri Ysbyty Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sydd yng Ngogledd Cymru.

Enillodd Sharon Wobr Arloesedd Macmillan a Chymrodoriaeth Macmillan am arloesi gyda'r defnydd o'r gwasanaeth Rocket Drain. Yn 2021 dyfarnwyd y teitl Darlithydd er Anrhydedd ym Mhrifysgol Bangor i Sharon a derbyniodd MBE am 'wasanaeth i ofal cleifion canser' yn Rhestr Anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Brenin 2024.

***"Fe wnaeth y cyfle i mi fynd i'r brifysgol yn 43 oed newid fy mywyd yn llwyr"***

# Stori Rhys



**Yn blentyn, breuddwydiodd Rhys Jones am ddyfodol yn archwilio coedwigoedd trofannol a bywyd gwyllt anhygoel. Fodd bynnag, ar ôl gadael yr ysgol yn 15 oed heb ennill unrhyw gymwysterau ffurfiol, a chyda dyslecsia heb ei ddarganfod, roedd yn freuddwyd a oedd yn ymddangos allan o'i gyrraedd ar adegau.**

Ar ôl cofrestru ar gwrs Mynediad i addysg uwch, astudiodd Rhys gwrs israddedig mewn Sŵoleg a Geneteg ym Mhrifysgol Caerdydd, ac yna MPhil mewn Entomoleg Foleciwlaidd Feddygol, a PhD mewn Phylogeneteg, herpetoleg a pharasitoleg. Roedd y graddau hyn yn allwedd i wireddu breuddwydion ei blentyndod.

Mae Rhys bellach yn Athro Cyswllt mewn Bioleg Esblygiadol ym Mhrifysgol Caerdydd ac wedi sefydlu gyrfa sydd wedi mynd ag ef i bedwar ban byd ac i'n sgriniau teledu.

Yn ogystal â chynnal ymchwil, mae Rhys wedi gweithio gyda DEFRA, ac INTERPOL i fynd i'r afael â throseddau bywyd gwyllt, wedi gweithio gyda Syr David Attenborough ar y gyfres Planet Earth, ac wedi cyflwyno rhaglenni bywyd gwyllt ar sianeli gan gynnwys BBC, Disney+, a National Geographic. Yn fwyaf diweddar, mae wedi cyhoeddi llyfr 'Becoming Dr Jones', sy'n manylu ar ei daith mewn addysg uwch.

**"Mae mynd i'r brifysgol wedi fy newid i fel person. Mae'n fwy na dim ond dysgu pwnc neu grefft newydd, mae'n ymwneud ag agor eich llygaid i'r byd"**

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

# Stori Keshlan



**Roedd gan Keshlan Padayachee bob amser ddiddordeb dwfn mewn hanes ac archeoleg. Fodd bynnag, oherwydd diffyg cynrychiolaeth yn y meysydd hyn, canolbwyntiodd yn hytrach ar y gwyddorau a dilyn gyrfa fel peiriannydd diwydiannol.**

Ar ôl y tarfu fu yn sgil pandemig, penderfynodd Keshlan mai dyma ei gyfle olaf - a gadawodd ei yrfa mewn peirianneg i ddilyn gradd mewn archaeoleg ym Mhrifysgol Caerdydd.

Er nad oedd ganddo unrhyw brofiad blaenorol yn y dyniaethau, rhagorodd Keshlan yn ei astudiaethau. Mae wedi cynnal cloddfeydd archeolegol mewn lleoliadau yn Wiltshire, Denmarc, Pompeii a Rhufain, gyda'i ddarganfyddiadau o'r cloddfeydd yn Wiltshire i'w gweld mewn arddangosfa yn Amgueddfa Salisbury.

Dyfarnwyd gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf i Keshlan ac mae ei lwyddiant academaidd bellach wedi ennill Ysgoloriaeth Clarendon iddo yng Ngholeg Wolfson Rhydychen, gan ddod ag ef yn nes at ei freuddwyd o ddod yn academydd mewn archeoleg.

***"Mae bywyd yn daith barhaus o newid, gan gynnig y rhyddid i esblygu ochr-yn-ochr â'r newid hwnnw. Gellir ei siapio i mewn i unrhyw beth rydych chi'n breuddwydio y gall fod"***

# Stori Charlotte



**Ar ôl graddio o Brifysgol Metropolitan Caerdydd gyda BA mewn Cerameg, sefydlodd Charlotte Manser fusnes yn arbenigo mewn crochenwaith ymarferol, ac mae bellach yn rhedeg y busnes hwnnw sydd werth chwe ffigwr.**

Yn y brifysgol, daeth Charlotte o hyd i gymuned gefnogol yn yr ysgol gelf a oedd yn teimlo fel ail gartref iddi. Roedd y cwrs ei hun yn ymdrin ag ystod eang o bynciau, o agweddau ymarferol ar ddysgu a rhedeg busnes, i heriau athronyddol celf a'r byd.

Ar ôl graddio, treuliodd Charlotte ddwy flynedd fel intern addysgu cyn penderfynu dechrau ei busnes ei hun. Er nad oedd ei haddysg yn canolbwyntio ar fusnes, dysgodd lawer am greu gwaith i'w werthu.

Derbyniodd Charlotte gyllid sbarduno busnes gan Ganolfan Entrepreneuriaeth y Brifysgol, a thros dair blynedd, adeiladodd ei busnes yn frand byd-eang gyda thîm o bedwar. Uchafbwynt ei thaith oedd cydweithrediad â'r canwr John Legend, a ddyblodd ei gwerthiant.

Mae Charlotte bellach yn rhannu ei phrofiadau gyda myfyrwyr cyfredol, gan eu hannog i ddilyn gyrfaoedd y maent yn eu caru.

**"Dewch o hyd i gwrs rydych chi'n ei garu a byddwch bob amser yn cael eich ysgogi a'ch ysbrydoli"**

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

# Stori Germaine

**Dechreuodd taith prifysgol Germaine Ngoy Kyabu pan gyfarfu ag aelod o staff o wasanaeth Ehangu Mynediad Prifysgol Metropolitan Caerdydd a'i hanogodd i wneud cais i'r Brifysgol.**

Ymrestrodd Germaine ar y System Profi Iaith Saesneg Ryngwladol a dau gwrs achredig, a roddodd iddi'r cymwysterau angenrheidiol i gael lle ar y cwrs Sylfaen. Tra bu ar y cwrs Sylfaen, daeth o hyd i'r cwrs gradd mewn Astudiaethau Tai.

Roedd y rhaglen Astudiaethau Tai yn cynnig llawer o gyfleoedd y tu allan i'r cwrs yr oedd Germaine yn awyddus i ymwneud â nhw. Trwy leoliad gwaith gyda Thai Taf, llwyddodd i sicrhau rôl Cynorthwyydd Prosiect o fewn y sefydliad, gyda llawer o lwybrau dilyniant gyrfa ar gael yn y dyfodol.

Gwelodd Germaine astudio ym Met Caerdydd fel ffordd o herio ei hun ac i osod esiampl i'w phlant ei dilyn. Mae hi'n falch o'r person newydd, gwell y mae hi erbyn hyn, diolch i'r cyfleoedd ym Met Caerdydd.



***"Rwy'n credu mai prifysgol yw'r allwedd i ddyfodol llwyddiannus, ac rwy'n gwybod y gall greu newid ym mywydau pobl"***

# Stori Michael



**Ar ôl graddio mewn Bioleg o Brifysgol De Cymru, dechreuodd Michael Rees weithio fel technegydd gwyddoniaeth mewn ysgol. Roedd gweld ei gydweithwyr yn addysgu yn cadarnhau awydd Michael i ddod yn athro, gan ei ysgogi i astudio ar gyfer cymhwyster TAR yn y Brifysgol Agored yng Nghymru.**

Roedd hyblygrwydd cwrs y Brifysgol Agored yng Nghymru yn caniatáu i Michael barhau i ennill cyflog tra'n astudio. Ar ôl graddio, cafodd swydd addysgu barhaol yn ei ysgol bresennol.

Mae Michael wedi tynnu sylw at y twf personol a phroffesiynol a gyflawnodd yn ystod ei gyfnod yn y brifysgol, gan gynnwys cyfleoedd i ymgysylltu â'r cyn-weinidog addysg, Kirsty Williams, cymryd rhan mewn arolygiad Estyn, a chyfrannu at noson agored yr ysgol. Mae'n hyderus y gall wynebu unrhyw her o ganlyniad i bopeth y mae wedi'i brofi yn ystod ei gyfnod yn y brifysgol.

Mae Michael yn canmol ei addysg brifysgol am drawsnewid ei fywyd, gan roi iddo'r cymwysterau a'r hyder oedd eu hangen arno i ffynnu mewn gyrfa y mae'n ei charu.

***"Mae fy mywyd wedi cael ei newid yn llwyr o ganlyniad i fynd i'r brifysgol, ac rydw i nawr mewn swydd rydw i'n ei charu'n fawr"***

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales
Cymru

# Stori Hayley



**Penderfynodd Hayley Harris astudio am radd mewn Hanes gyda'r Brifysgol Agored ar ôl ymchwilio i'w choeden deuluol ei hun. Roedd hi'n awyddus i ddysgu mwy am fywydau pobl hanesyddol, tra'n hogi ei sgiliau ymchwilio ac ennill cymhwyster a allai agor drysau o ran gyrfa.**

Ar ôl dioddef o iselder a gorbryder am flynyddoedd lawer, fe wnaeth mynd i'r brifysgol wella hunan-barch Hayley yn aruthrol, gan roi hyder iddi yn ei galluoedd. Ymrestrodd ar ei chwrs gan ddisgwyl y byddai rhaid iddi roi'r gorau iddi, ond daeth allan gyda gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf, gan fynd ymlaen i astudio ar gyfer gradd meistr ym Mhrifysgol Birmingham. Ers hynny mae hi wedi drafftio cynnig PhD sydd wedi cael derbyniad da gan academyddion, ac mae'n gobeithio ymgymryd â'r cymhwyster hwn yn y dyfodol agos.

Mae Hayley yn annog eraill i ystyried mynd i'r brifysgol, nid yn unig ar gyfer y manteision posibl o ran gyrfa, ond hefyd ar gyfer y sgiliau trosglwyddadwy a thwf personol y gall eu cynnig.

***"Mae mynd i'r brifysgol wedi gwneud rhyfeddodau i'm hunan-barch, ac rwyf wedi symud ymlaen o fod yn amheus ac yn anghrediniol i fod yn hyderus ac yn sicr o'm galluoedd fy hun"***

# Stori Caitlin




**Enillodd Caitlin, sy'n fyddar iawn ac yn defnyddio mewnblaniadau cochlear, radd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf mewn Nyrsio Oedolion o Brifysgol Abertawe yn 2019, a chymhwysodd ar gyfer gofal dwys lle bu'n gweithio am dair blynedd a hanner, gan gynnwys yn ystod y pandemig COVID-19.**

Tra'n gweithio'n glinigol yn ystod y cyfnod cythryblus hwn, dilynodd Caitlin radd Meistr rhan-amser mewn addysg ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, gan ennill rhagoriaeth.

Trwy ei gwaith fel nyrs, sylweddolodd Caitlin fod bylchau mewn gwybodaeth am anghenion pobl fyddar ac o ganlyniad creodd lyfryn i arwain gweithwyr gofal iechyd wrth gynnig cymorth i gleifion byddar. Mae hi hefyd yn ymchwilio i sut i wella amgylcheddau clinigol ar gyfer nyrsys â nam ar eu clyw ac mae wedi sicrhau Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Ymchwil uchel ei bri o Brifysgol Abertawe i ddatblygu ei hymchwil ar brofiadau nyrsys byddar yn y DU.

Mae Caitlin yn cydnabod y gefnogaeth a gafodd yn y brifysgol am ei llwyddiant, sydd wedi agor nifer o gyfleoedd o ran gyrfa, gan gynnwys darlithio, ymchwil, a gwaith llywodraethol.

***"Mae mynd i'r brifysgol wedi cael effaith enfawr ar fy mywyd. Rwy'n teimlo fod y profiad wedi fy rhoi ar lwybr gwych i helpu pobl eraill"***

# Stori Carrie



**Nid oedd Carrie Power erioed wedi ystyried mynd i'r brifysgol yn ystod ei blynyddoedd ysgol. Doedd neb yn ei theulu wedi mynychu'r brifysgol, ac arweiniodd hynny at adael yr ysgol heb ddeall beth oedd ei holl opsiynau.**

Yn 19 oed, ymunodd Carrie â'r Fyddin Brydeinig, gan hyfforddi i ddechrau fel Mecanydd Cerbydau ac yn ddiweddarach gwasanaethu fel Technegydd Meddygol yn Lluoedd Wrth Gefn y Fyddin, cyn gweithio fel Trefnydd Trafnidiaeth i'r Fyddin. Nid oedd hyn yn cynnig unrhyw lwybrau dilyniant a dechreuodd Carrie gwestiynu ei dewis o ran gyrfa.

Penderfynodd fentro a gwneud cais i brifysgol, gan ennill lle ym Mhrifysgol Abertawe i astudio Ieithoedd Modern. Yn ystod ei chyfnod yn y brifysgol daeth hefyd o hyd i le ar dîm nofio'r Brifysgol, gan ennill medal efydd ym Mhencampwriaethau Meistri Prydain yn ddiweddar.

Mae Carrie bellach yn paratoi ar gyfer cael ei hyfforddi fel athrawes Almaeneg a Ffrangeg ym Mhrifysgol Rhydychen, ac mae'n edrych ymlaen at rannu ei dealltwriaeth newydd o addysg uwch a'i photensial gyda'r genhedlaeth nesaf.

***"Bod yn y brifysgol yw'r hapusaf rydw i wedi bod yn fy holl fywyd. Rwy'n teimlo'n fodlon fy mod ar y llwybr cywir mewn bywyd nawr, ac mae hynny'n gwneud unrhyw frwydr rydw i wedi gorfod mynd drwyddi yn werth chweil"***

# Stori Tim

**Aeth Tim Allen, a astudiodd Animeiddio Stop Motion ym Mhrifysgol De Cymru, ymlaen i fod yn Uwch Animeiddiwr ar Pinocchio gan Guillermo Del Toro, enillydd Oscar a BAFTA am y Ffilm Animeiddiedig Orau. Sicrhaodd y ffilm hefyd Golden Globe ar gyfer y Ffilm Animeiddiedig Orau a phum Gwobr Annie, gan gynnwys y Ffilm Orau a'r Cyfarwyddo Gorau.**

Yn ystod ei yrfa 23 mlynedd, mae Tim wedi gweithio ar gynyrchiadau animeiddio enfawr fel Chicken Run a Chicken Run: Dawn of the Nugget. Mae hefyd yn gweithio fel mentor, yn teithio'r byd gan gyflwyno dosbarthiadau meistr a gweithdai animeiddio i annog y genhedlaeth nesaf o animeiddwyr.

Pan oedd yn 18 oed ac yn ceisio penderfynu beth i'w wneud â'i fywyd, penderfynodd Tim fynd ar drywydd rhywbeth y byddai'n ei fwynhau. Nawr, yr holl flynyddoedd yn ddiweddarach, mae'n dal i werthfawrogi'r hyn y mae'n ei wneud ac mae'n ddiolchgar iddo wneud y penderfyniad i astudio Animeiddio Stop Motion yn y brifysgol.



***"Mynd i'r brifysgol oedd dechrau'r bywyd sydd gen i nawr. Dyna lle dechreuodd fy nhaith"***

University of South Wales
Prifysgol De Cymru

# Stori Antigone




**Roedd taith Antigone Cooper i'r brifysgol yn anghonfensiynol, wedi'i llunio gan ei harddegau a dreuliwyd mewn gofal. Yn wreiddiol o'r DU, symudodd i UDA, gan dyfu i fyny yn Texas cyn dychwelyd i'r DU yn ei harddegau cynnar. Roedd y cyfnod pontio hwn yn adeg heriol, gan arwain at fethiant yn ei pherthynas â'i rhieni.**

Yn 16 oed, dechreuodd Antigone weithio mewn swyddi amrywiol, gan ddod yn ofalwr i'r rhai oedd â dementia ac angen cymorth diwedd oes yn y pen draw. Fodd bynnag, sylweddolodd yn fuan nad hwn oedd ei llwybr gyrfa hirdymor a phenderfynodd ddychwelyd i addysg. Astudiodd ar gyfer gradd seicoleg ym Mhrifysgol De Cymru, gan raddio yn 2021 gyda 2:1, cyn mynd i astudio ar gyfer gradd Meistr mewn Rheoli Adnoddau Dynol.

Yn ystod ei chyfnod yn y brifysgol, cafodd Antigone gefnogaeth sylweddol, yn enwedig fel rhywun oedd wedi bod yn y system gofal. Mae hi nawr yn bwriadu defnyddio ei phrofiad o oresgyn heriau personol i adeiladu gyrfa ym maes adnoddau dynol.

***"Os nad ydych chi'n mynd i'r brifysgol, mae cyfyngiadau ar ba mor bell y gallwch chi fynd, ac yn enwedig fel rhywun sy'n gadael gofal dydych chi'n ddim ond ystadegyn y rhan fwyaf o'r amser"***

# Stori Rebecca



**Ar ôl astudio Patrwm Arwyneb a Thecstilau yng Ngholeg Celf Abertawe Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, mae Rebecca Davies bellach yn cael ei chyflogi fel Dylunydd Arbenigol gan gwmni ceir Rolls Royce Cyf. ED-R-UK.**

Yn flaenorol, roedd Rebecca wedi sicrhau interniaeth gyflogedig gyda Rolls-Royce trwy Goleg Celf Abertawe'r Brifysgol a threuliodd 13 mis fel rhan o dîm dylunio unigryw'r cwmni. Arweiniodd hyn at ei rôl bresennol gyda'r cwmni.

Mae Rebecca, y genhedlaeth gyntaf o'i theulu i fynd i addysg uwch, yn canmol y Brifysgol am ei galluogi i ddilyn gyrfa greadigol.

Ochr-yn-ochr â'r wybodaeth am ddylunio technegol, mae'r gefnogaeth a dderbyniodd a'r hyder a ddatblygodd Rebecca trwy ei chwrs wedi ei galluogi i ddechrau gyrfa mewn dylunio na fyddai wedi credu'n bosibl cyn ei hastudiaethau.

***"Yn ystod fy nghyfnod yn y Brifysgol, cefais fy nghyflwyno i ystod eang o gyfleoedd a newidiodd fy llwybr gyrfa yn llwyr"***

# Stori Elisha



**Mae Elisha Hughes, a raddiodd mewn Celfyddyd Gain o Goleg Celf Abertawe Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, bellach yn gweithio gyda thîm Ehangu Mynediad y Brifysgol, gan ddefnyddio ei sgiliau creadigol i ysbrydoli eraill i ystyried addysg uwch.**

Mae'n ymroddedig i feithrin partneriaethau â chymunedau lleol, gan ganolbwyntio ar greu newid cadarnhaol, yn enwedig yn ei thref enedigol, Blaen-y-Maes, Abertawe, lle mae wedi bod yn ymwneud yn weithredol â'i chymuned ers ei bod yn 12 oed.

Mae ei hymdrechion wedi arwain at bartneriaeth rhwng y ganolfan gymunedol leol ym Mlaen-y-Maes a'r Brifysgol, gan alluogi'r gymuned i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu amrywiol.

Mae Elisha yn canmol ei phrofiad prifysgol am drawsnewid ei bywyd, ehangu ei set sgiliau, ac agor cyfleoedd newydd. Mae'n angerddol am wneud addysg uwch yn hygyrch i bawb, ac mae'n gweld ei rôl mewn Ehangu Mynediad fel braint, gan ganiatáu iddi roi yn ôl a helpu i newid y naratif i eraill.

***"Fe wnaeth mynd i'r brifysgol roi cyfleoedd i mi na fyddwn i byth wedi'u dychmygu"***

# Stori Paige



## Bellach yn meddu ar radd mewn Gwyddoniaeth Fforensig ac yn ddarlithydd biowyddorau, roedd taith Paige Tynan i wyddoniaeth ymhell o fod yn syml.

Wedi'i digalonni i ddechrau gan athrawon a oedd yn rhagweld y byddai'n methu ei harholiadau gwyddoniaeth, symudodd Paige ei ffocws i ofal plant a gwnaeth gais am radd mewn nyrsio pediatrig. Fodd bynnag, ar ôl cael ei gwrthod gan bump o sefydliadau a methu'r profion Saesneg gofynnol, ailystyriodd ei llwybr a phenderfynodd roi un cynnig arall ar wyddoniaeth.

Ar ôl darganfod gradd Gwyddoniaeth Fforensig ym Mhrifysgol Wrecsam gyda blwyddyn sylfaen, manteisiodd ar y cyfle i ddal i fyny â chynnwys Lefel A a gollwyd.

Er iddi ei chael yn anodd yn y brifysgol i ddechrau, fe wnaeth diagnosis am ddyslecsia a chefnogaeth gan ei darlithwyr a'r tîm Cynhwysiant ei helpu i ragori. Bu taith i'r Unol Daleithiau, lle bu'n astudio Taffonomeg Fforensig yn allweddol, gan danio ei hangerdd am y maes ac arwain at ymchwil arobryn a chyhoeddi nifer o erthyglau.

Mae Paige bellach yn ddarlithydd llawn-amser ym Mhrifysgol Wrecsam, gan ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr fforensig.

**"Mae'n anodd credu pa mor bell rydw i wedi dod a beth rydw i wedi'i gyflawni ar hyd y ffordd"**

# Stori Cathy



**Ar ôl profi trawma fel oedolyn, derbyniodd Cathy gefnogaeth anhygoel gan wasanaethau fel cymorth i ddioddefwyr. Penderfynodd astudio Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol ym Mhrifysgol Wrecsam fel y gallai gynnig cefnogaeth i eraill trwy brofiadau tebyg.**

Roedd yn ei chael yn anodd yn y brifysgol i ddechrau ond gyda chefnogaeth gan diwtoriaid, gwasanaethau academaidd, a chwnsela, graddiodd Cathy gydag anrhydedd dosbarth cyntaf. Yna dilynodd radd meistr mewn Troseddeg, pan ymunodd â'r prosiect Trawma a Phrofiad Niweidiol yn ystod Plentyndod (TraCE), gan addysgu eraill am effeithiau trawma.

Mae Cathy bellach yn astudio ar gyfer cymhwyster Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET) ac wedi sicrhau lleoliad gwaith yn yr adran Droseddeg, lle mae'n arwain gweithdai a darlithoedd. Mae hi hefyd yn cynnal gweithdai fel hyrwyddwr TrACE i hybu dealltwriaeth o drawma.

Yn falch o'i thaith addysgol, mae Cathy yn ystyried gwneud PhD er mwyn parhau i ysgogi eraill. Mae hi'n canmol addysg am ei helpu i ddod o hyd i bwrpas a rhoi hwb i'w hyder ym mhob agwedd ar fywyd.

***"Oni bai am addysg fyddwn i ddim wedi canfod fy mhwrpas fy hun y tu hwnt i fod yn fam ac yn ddarparydd. "Rwyf wedi dod yn llawer mwy hyderus ym mhob agwedd ar fy mywyd"***



**“Y brifysgol oedd y sbardun i fy annibyniaeth, hunan-gred, twf a gyrfa”**